**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2012 ym Mharlwr Mawr, Theatr y Ddraig, Abermaw**

**YN BRESENNOL**

**Y Cynghorydd Trevor Roberts (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams, Gethin Glyn Williams (Cyngor Gwynedd), Cyng. P. Bunce (Cyngor Tref Abermaw), Cyng. Eric Wilding (Cyngor Cymuned Arthog), Mrs. Wendy Ponsford (Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw), Mr Denis Howell (Clwb Hwylio Meirionnydd).

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Llyr Jones | - | Uwch Reolwr Economi a Chymuned |
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Ken Fitzpatrick | - | Swyddog Morwrol Harbyrau |
| Mr Huw Davies | - | Peiriannydd Grŵp |
| Glyn Jones | - | Harbwr Feistr |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr W. Roy Owen (Arweinydd Portffolio Morwrol a Pharciau Gwledig), Ioan Thomas (Cadeirydd Pwyllgor Craffu Datblygu), Y Cyng. Aeron Williams (Cyngor Tref Abermaw), Mr John Probert (Cymdeithas y Bad Achub), Mr John Johnson (Cymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Bae Ceredigion) a Chynghorydd David Richardson (Sylwedydd ar ran Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi)

1. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Trevor Roberts ei fod yn aelod am oes o'r Clwb Hwylio ac ni fu iddo gymryd rhan mewn trafodaeth yn gysylltiol â'r Clwb.

2. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar 4 Hydref 2011.

(a) Tynnodd Aelod sylw at gywirdeb y materion canlynol:

(i) Tudalen 2 – Eitem (i) Cymhorthion Mordwyo - bod paragraff dau yn cyfeirio at osod y cymhorthydd erbyn mis Tachwedd ond fe wrthddywedir hyn yn yr ail baragraff o bwynt (b) ar yr un dudalen drwy ddweud ei fydd yn ei le erbyn y Nadolig.

(ii) Tudalen 5 (d) **(Tudalen 6 (d) yn y cyfieithiad Saesneg**) – gofynnwyd i'r Swyddog Morwrol os ydoedd wedi dweud y "pryderai am ansawdd wyneb y waliau yn ardal Ystorfa Disel ac y byddai'n ofynnol buddsoddi i'w hatgyweirio".

(iii) Tudalen 7 (ch) - cwestiynwyd os oedd Aelod wedi mynegi'r sylw a nodir yn y frawddeg olaf am swyddogion.

(iv) Tudalen 7 – Pwynt (2) – Ffendrau yr ysgolion **(Tudalen 8 yn y cyfieithiad Saesneg)** - gofynnwyd i'r Cadeirydd os ydoedd wedi dweud "y gellid codi materion dydd i ddydd sydd yn

pryderu'r Aelodau gyda'r Harbwr Feistr yn hytrach na disgwyl a'i godi yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ymgynghorol".

(b) Mewn ymateb i'r uchod, roedd y Cadeirydd a'r Swyddog Morwrol o'r farn bod y cofnodion yn gywir ac addawodd y Swyddog Pwyllgor edrych ar ei nodiadau o'r cyfarfod diwethaf. Nodwyd ymhellach y byddai'n gwneud cais i gael recordiad o'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn i'r dyfodol.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

2.1 **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**(a) Eitem 5 (ii) – Trwyddedau Perchnogion a Chychwyr**

Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at y penderfyniad iddo drefnu cyfarfod gyda gweithredwyr yr ysgraff gan nodi ei fod wedi ceisio sicrhau dyddiadau cyfleus ond oherwydd nifer o resymau ac ymrwymiadau ni fu'n bosibl trefnu cyfarfod. Cyflwynir ceisiadau am drwyddedau saith niwrnod cyn Gwyliau'r Pasg ac os cyfyd cyfle i gynnal cyfarfod sicrhawyd fe wneir hynny.

Nododd yr Harbwr Feistr bod un o'r gweithredwyr sydd yn ddaliwr trwydded perchennog cwch wedi cyrraedd yn ddiogel yn ôl o Afghanistan.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r eglurhad uchod.**

**(b) Eitem 5 (iv) – Cyllidebau Harbwr (Gwerthiant Asedau)**

Adroddodd y Swyddog Morwrol o safbwynt gwerthiant asedau bod nifer o'r unedau ar y Cei ac Aberamffra bellach wedi eu gwerthu am £170,000 gyda thair uned yn weddill heb eu gwerthu. Nodwyd bod cyfanswm yr holl unedau yn creu oddeutu £4,000 o incwm y flwyddyn i'r Gwasanaeth Morwrol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r wybodaeth uchod.**

**(c) Eitem 7 (5) – Hysbysebu'r Harbyrau**

Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol at gais a wnaed yn y cyfarfod diwethaf i'r Gwasanaeth Morwrol hysbysebu gweithgareddau'r Harbyrau mewn mannau a chylchgronau priodol i ddenu fwy o gwsmeriaid iddynt, gan nodi bod hysbysebu o fewn cylchgronau yn gost sydd yn bell tu hwnt i'r hyn y gallasai'r Gwasanaeth glustnodi o fewn y gyllideb. Hysbysebir Hafan Pwllheli yng nghylchgronnau "Yachting Monthly" a 'Practical Boat Owner' ar gost o oddeutu £1,500 - £2,000.

Ychwanegodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod llyfryn peilot dan y teitl "North West Venture Yacht Club - Cruising Anglesey and Adjoining Waters" yn cynnwys harbyrau hyd at Borthmadog ac mae'r Cyngor wedi cymryd mantais o hysbyseb llawn ynddo. Roedd y Swyddog Morwrol wedi trafod gydag awdur y llyfryn y posibilrwydd iddo ymweld ag Aberdyfi ac Abermaw gyda'r bwriad o ysgrifennu rhannau perthnasol am yr harbyrau hyn gyda'r bwriad i'w roi yn y llyfryn. Hyderir y bydd y ddau Harbwr yn cael eu cynnwys yn y llyfr peilot ymhen blwyddyn a hanner i ddwy flynedd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r wybodaeth uchod.**

3. **<u>ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL</u>**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Abermaw gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

**(i) Ffioedd a Thaliadau**

(a) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr argymhellir cynnydd o 2.5% yn ffioedd a thaliadau'r harbwr i bob cwch fydd yn angori yn yr ardal sydd o dan awdurdod Harbwr Abermaw yn 2012/13. Rhagwelir cynnydd chwyddiant yn Harbwr Abermaw am 2012/13 yn 1.69%, ffigwr sydd wedi ei selio ar nifer o ffactorau sy'n codi a gostwng uwchben lefel chwyddiant. Wrth ystyried graddfa chwyddiant nodwyd bod cynnydd cyffredinol yn nharged incwm i Abermaw am 2012/13 yn £780 gyda chyfanswm y targed incwm yn £46,860 am y flwyddyn. Nodwyd bod camgymeriad yn yr adroddiad yng nghyswllt graddfa chwyddiant Harbwr Aberdyfi ac y dylai ddarllen 2.08% yn hytrach na 12.08%.

Cynyddir ffioedd a thaliadau i gofrestru Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol oddeutu £5.00 ac fe gedwir ffioedd lansio dyddiol 'run peth am eleni.

Fe welir cynnydd heriol yn nharged incwm cyffredinol yr Uned Forwrol am 2012/13 sef £94,800 sy'n cymharu gyda tharged a gynyddwyd o £57,330 yn 2011/12. Cynyddir hyn darged incwm cyffredinol yr Uned Forwrol (heb gynnwys Parciau Gwledig) i £2,467,550 yn 2012/13.

(b) Nododd Aelod bod y traeth yn ased gwerthfawr iawn i'r Harbwr a'i fod yn denu ymwelwyr sydd yn parcio ym maes parcio'r Cyngor ac ar y Promenâd. Roedd o'r farn y dylai canran o dderbyniadau'r tâl parcio, os nad i gyd, gael ei drosglwyddo i'r Gwasanaeth Morwrol er mwyn lliniaru'r broblem o gyrraedd targed incwm yr Harbwr.

Mewn ymateb, cytunai'r Cadeirydd a'i fod wedi ymdrechu ers blynyddoedd gyda'r awgrym uchod ond nad oedd modd dod i gytundeb. Fodd bynnag, roedd wedi gwasanaethu ar lawer o weithgorau yn ddiweddar a oedd yn ymdrin â threfn llywodraethu newydd y Cyngor yn dilyn yr Etholiad ym mis Mai. Byddai gan y Cyngor newydd drefn Cabinet fel pob awdurdod arall yng Nghymru a hyderai y gallai'r drefn hyrwyddo newidiadau o ran derbyniadau tâl parcio.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(ii) Cyllidebau**

(a) Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr Aelodau drwy'r mantolenni cyllideb ar gyfer Abermaw gan nodi mai mantolen ar gyfer y drydydd chwarter o'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Rhagfyr 2011 oedd ger bron. Nodwyd bod targed incwm Harbwr Abermaw am 2011/12 yn £46,080 gyda chyfanswm hyd ddiwedd Rhagfyr 2011 yn £32,602. O'r 31 Rhagfyr 2011 roedd diffyg o £13,478 a rhagwelir y byddai oddeutu £15,000 o orwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Rhaid byddai felly fel Gwasanaeth Morwrol darganfod y diffyg mewn meysydd eraill o fewn y Gwasanaeth. Pwysleisiwyd o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol a'r gofyn i adnabod arbedion y bydd 2011/12 yn heriol i'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig ac yn enwedig i Harbwr Abermaw ac Aberdyfi sy'n dangos eu bod angen cymorth ariannol ychwanegol.

(b) Gwnaed cymhariaeth gyda chyllideb Harbwr Aberdyfi gan dynnu sylw bod diffyg o £8,887 ond er hynny disgwylir y bydd arbediad o tua -£10,000 yn y gyllideb wariant a fydd yn dangos tan wariant cyffredinol o tua -£2,000 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. O ystyried hyn felly fe fydd cyfanswm y gorwariant i'r ddau Harbwr efallai yn lleihau.

(c) Atgoffwyd yr Aelodau o'r pryder a fynegwyd yn y cyfarfod diwethaf o'r cynnig i forwyr angori eu cychod yn Hafan Pwllheli dros fisoedd y gaeaf ac y byddai'n lleihau nifer y cychod oedd yn gaeafu yn Abermaw. Nodwyd mai 6 cwch yn unig o Abermaw a gymerodd fantais o'r cynnig hwn.

(ch) Nododd Aelod unwaith eto, yn wyneb bwysigrwydd i gyrraedd targedau incwm, ei fod yn annheg bod y Cyngor yn elwa o'r incwm a wneir o'r meysydd parcio yn Abermaw. Dylai'r sawl a dynnodd i fyny'r gyllideb fod yn ymwybodol bod y Promenâd yn rhan o'r traeth ac ni fyddir yn gwneud cymaint o elw o'r derbyniadau parcio oni bai am y traeth a gweithgareddau'r Harbwr yn Abermaw.

Ategodd y Cadeirydd y dylai 100% o'r derbyniadau parcio ar y Promenad gael ei drosglwyddo i'r Gwasanaeth Morwrol a'i fod yn rhwydd i gyfrifo faint o arian a wneir o'r peiriannau parcio ar y Promenad.

(d) Nododd Aelod, mewn ymateb i'r sylw a wnaed ynglŷn â'r cynnig i forwyr angori cychod yn Hafan Pwllheli, hyderai na fyddai hyn yn cael ei adolygu yn wyneb ei phryder o golli mwy o gychod o Abermaw.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(iii) Mordwyo**

(a) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod holl gymhorthion mordwyo sy'n arwain i Harbwr Abermaw wedi aros yn eu lle yn ystod rhan gyntaf y gaeaf ac y bydd Tŷ'r Drindod yn ail archwilio'r holl Gymhorthion Mordwyo yn ystod haf 2012. Fel adroddwyd yng nghyfarfod diwethaf roedd bwriad i osod Cymhorthydd y Clwyd cyn y Nadolig ond nid oedd wedi bod yn bosibl oherwydd iechyd a diogelwch yn wyneb y ffaith nad oedd llanw isel yn cyd-fynd â golau dydd. Fodd bynnag ar y llanw cyntaf isel posibl fe osodwyd y Cymhorthydd gan gontractwr a hyderir y bydd yn parhau ar ei safle. Ategodd y Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau bod y golau arno angen ei ail-raglennu ac y byddai'n weithredol cyn y Pasg.

(b) O safbwynt gweddill y cymhorthion mordwyo roedd angen cael amcan brisiau ar gyfer eu cynnal. Roedd Dwr Cymru gyda rhaglen gynhwysfawr ac yn gobeithio rhoi sylw pellach i'r cymhorthydd sydd wrth ymyl gwyliwr y glannau.

(c) Cadarnhawyd bod holl Gymhorthion Mordwyo sy'n arnofio drwy'r flwyddyn gyda thâp adlewyrchu golau arnynt.

(ch) Ail-edrychir ar y parthau eithrio cychod yn enwedig yn Fairbourne sydd wedi ei adnabod i fod yn aneffeithiol oherwydd y pellter sylweddol sydd rhwng lle gosodir y bwiau a'r traeth. Ar lanw uchel roedd y bwiau mor bell o'r lan ac o ganlyniad yn cael ychydig o effaith. Collwyd nifer o angorau a bwiau dros y blynyddoedd. Oherwydd eu haneffeithiolrwydd dros y blynyddoedd rhoddir ystyriaeth i beidio lleoli bwiau ym Mae Fairbourne ac ymylon traeth Abermaw yn 2012 ond fe fyddir yn monitro'r sefyllfa ar ddiwedd y tymor.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(iv) Staff**

**Cyflwynwyd:** I'r Aelodau yn ystod y cyfarfod raglen waith o'r cyfnod Hydref i Ragfyr yn nodi'r gwaith a gwblhawyd gan Staff yr Harbwr ac fe addawyd y byddir yn anfon y rhaglen ragweithiol i ddangos gwaith dydd i ddydd yr Harbwr Feistr i'r Aelodau yn ddi-oed.

(a) Adroddwyd bod gŵr o ardal Porthmadog wedi ei benodi i'r swydd Cymhorthydd Harbwr Abermaw a fydd yn dechrau ar ei ddyletswyddau 2 Ebrill hyd at 30 Medi 2012. Fe fydd y swydd yn cael ei adolygu ond annhebygol, oherwydd sefyllfa ariannol, fyddai ail-sefydlu'r swydd yn llawn-amser i'r dyfodol. Ni fyddir yn penodi Cymhorthydd Harbwr i Harbwr Porthmadog nac ychwaith Pwllheli gyda'r bwriad o ddefnyddio'r swyddogion presennol i wasanaethu'r Harbyrau.

(b) Byddir yn penodi tri swyddog traeth i ganolbwyntio ar reoli traeth Gwobr y Faner Las yn Abermaw.

(c) Adolygwyd y sefyllfa ar gyfer traeth Fairbourne ac ni ragwelir y byddir yn penodi swyddog traeth yn Fairbourne yn 2012. Bychan iawn oedd cyfanswm incwm ar gyfer Pwynt Penrhyn ac felly bu'n rhaid ystyried a oedd yn gynaliadwy i gyflogi swyddog yno. Byddir yn adolygu'r sefyllfa ond pwysleisiwyd yr angen i ganolbwyntio ar y traethau penodedig.

(ch) Yn deillio o'r uchod, mynegodd Aelod bryder y byddai'r Cyngor yn cael ei farnu pe byddai damwain yn digwydd ar draul ychydig o gostau i benodi swyddog Traeth yn Fairbourne. Ategodd cynrychiolydd Cyngor Cymuned Arthog yr un pryder o ystyried bod llawer iawn o bobl yn mynd i'r traeth yn Fairbourne a theimlwyd bod £5,800 yn gost fechan o'i gymharu â cholli bywyd unigolyn ac y dylid ail-ystyried yr awgrym i beidio lleoli bwiau yn yr ardal Parth Eithrio Cychod.

Mewn ymateb eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod gan y Cyngor arfordir hir a phrydferth ym Mhorth Neigwl gyda channoedd o bobl yn ymweld a neb yn ei oruchwylio. Nododd ymhellach nad oedd cyfrifoldeb statudol yn bodoli i reoli'r arfordir. Roedd llawer iawn o gost ynghlwm i edrych ar ôl y traethau. Ni welir llawer iawn o dorri rheolau ar draeth Fairbourne ond sicrhawyd y byddir yn monitro'r sefyllfa yn dilyn tynnu'r bwiau o'r Parth Eithrio Cychod. Nodwyd ymhellach bod cyfrifoldeb ar forwyr i sicrhau beth sydd o'u cwmpas wrth hwylio ond roedd y Gwasanaeth yn mynnu bod gan berchnogion yswiriant er nad oedd hyn yn statudol.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig drefnu bod rhaglen waith rhagweithiol yn cael ei hanfon i'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod hwn.**

**(v) Gwobr Traeth**

(a) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y cyflwynwyd cais am Wobr Traeth y Faner Las i draeth Abermaw ar gyfer 2012 a llwyddodd yr ansawdd dŵr ymdrochi 2011 gyrraedd y safon canllaw ac felly gellid cyflwyno cais am y Faner Las Rhyngwladol. Cyfeiriwyd at ganlyniadau'r prawf dŵr ymdrochi ac fe welwyd mai dim ond un diwrnod y methodd y prawf sef ar 7 Awst.

(b) Tynnwyd sylw bod cost am gais y Faner Las yn £600 ar gyfer 2013/14 ac yn wyneb y ffaith nad oedd cyllideb wedi ei glustnodi ar ei gyfer bwriedir cyflwyno ceisiadau i'r Cynghorau Tref / Cymuned i ofyn am gyfraniad tuag at y gost.

(c) Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglyn â'r un methiant yn y profion ac a oedd ymchwil pellach yn cael ei wneud, esboniodd y Swyddog Morwrol bod y profion wedi cyrraedd safon ucha' posibl ac nad oedd pwynt ymchwilio i'r un methiant. Os byddai'n methu'n gyfan gwbl, yna fe fyddir yn gofyn i swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd ymchwilio i'r mater ymhellach.

(ch) Nodwyd mai gyferbyn â Gwesty'r Arbor y gwneir y profion.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r wybodaeth uchod.**

**(vi) Materion Cyffredinol**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar y canlynol:

(a) **Consesiynau Traeth** - gwrthodwyd y cais i werthu nwyddau bwytadwy o safle sefydlog ar y Promenad. Cyflwynwyd cais newydd gan ymgeisydd yn gofyn am ganiatâd i logi cadeiriau haul ar y traeth ac ni welir gwrthwynebiad i'r cais hwn yn dilyn cadarnhad gan y Cyngor Tref eu bod yn gefnogol.

Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd y byddir yn croesawu'r uchod yn amodol i'r cadeiriau gael eu clirio yn ystod yr hwyr ac na fyddai'r ymgeisydd yn codi caban symudol neu gyffelyb.

(b) Bod **gweithgaredd y Motor Cross** ar y prif draeth wedi bod yn llwyddiant.

(c) Bod **Ardal y Lloc** yn parhau i achosi pryder i'r Gwasanaeth Morwrol a gofynnwyd am farn yr Aelodau i'w waredu ar y farchnad agored. Yn hanesyddol roedd yr ardal wedi ei neilltuo ar gyfer pysgotwyr ond bellach roedd ei ddefnydd wedi newid ar gyfer gwaredu dodrefn, a.y.b. Golygai hyn gryn dipyn o bwysau ar adnoddau'r Uned Forwrol i symud tunelli o ddeunyddiau o'r lloc i Ffridd Rasus, Harlech ar gost sylweddol o ran amser ac adnoddau. Er bod teledu cylch cyfyng yn yr ardal yma, nid oedd yn bosibl gweld pwy sydd yn gwaredu'n anghyfreithlon. O'i waredu byddai'n dod ag incwm i'r Harbwr ac yn rhyddhau staff i ymdrin â dyletswyddau eraill.

(ch) Mewn ymateb, mynegodd Aelod ei hanfodlonrwydd mewn gwaredu ardal y lloc. Tra'n derbyn ei fod yn cael ei ddefnyddio'n anghyfreithlon roedd yn ased pwysig a defnyddiol i ddefnyddwyr yr Harbwr.

Roedd y Cadeirydd yn gefnogol i gadw ardal y lloc ond y byddai'n rhaid ei reoli. Awgrymodd oni bai bod tenantiaid yn cydymffurfio y dylid cymryd camau priodol i ddiddymu'r denantiaeth. Cytunai Aelod y dylid cymryd camau penodol yn hyn o beth gan ei fod yn costio'n sylweddol i'r Gwasanaeth Morwrol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol awgrymwyd y byddai o fudd gweithredu'r camau canlynol:

- Rhoi cyfamod caeth ar y denantiaeth ac amlinellu'n glir wrth y tenantiaid o'r hyn a ddisgwylir ganddynt i'w gadw'n daclus
- Buddsoddi mewn cyfarpar goruchwylio gwell fel bo modd dal y troseddwyr
- Rhoi arwydd i fyny yn ardal y lloc o'r adnodd newydd sydd ar gael yng Nghanolfan Ail-gylchu Dolgellau i waredu deunyddiau na ddylid eu gwaredu yn y lloc

Nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned ei bod yn amlwg o'r uchod bod Aelodau yn awyddus i gadw ardal y lloc ym meddiant y Cyngor ond y byddai'n rhaid edrych ar bosibiliadau i'w reoli i'r dyfodol.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Awdurdodi na ddylid gwerthu ardal y lloc a'i fod yn cael ei gadw fel rhan o asedau'r Harbwr.**

(d) **Tablau Llanw -** Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'r Uned Forwrol yn parhau i argraffu'r tablau llanw fel yn y gorffennol.

(dd) **Datblygiad Pontŵn** - Braf ydoedd nodi drwy frwdfrydedd a menter gan aelodau Clwb Hwylio Meirionnydd y bydd pontŵn yn cyrraedd Abermaw mis Ebrill a fyddai'n ymestyn oddeutu 25 medr ar hyd wal y cei. Llwyddwyd i ddenu grantiau o gronfa "Sblash" Asiantaeth yr

Amgylchedd a Chronfa Arbrofol Eryri gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Derbyniwyd cefnogaeth ariannol gan y Cyngor i dalu am gost y Drwydded Forol yn y swm o £2,275 a'r ceisiadau cynllunio yn y swm o £731.00.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau hynny a ymdrechodd yn galed i ddenu'r grantiau ac i wireddu'r prosiect ac y byddai o fudd i Harbwr Abermaw.

Ategodd Aelod o'r Clwb Hwylio ei ddiolchiadau i'r Cyngor am gefnogi'r fenter gan nodi nad menter y Clwb Hwylio ydoedd ond y byddai'n agored i'r cyhoedd i'w ddefnyddio yn rhad ac am ddim o dan awdurdod yr Harbwr Feistr.

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned, o safbwynt trefniadau rheolaethol, bod angen trafodaeth bellach gyda'r Clwb Hwylio ynglyn â gweithredu a rheoli'r datblygiad. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ynglyn â hyn ond roedd angen trafodaeth glir a phendant ynglyn â chyfrifoldeb amdano.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Y byddai'r Uwch Reolwr Economi a Chymuned yn cynnal trafodaethau pellach ynglyn â gweithrediad a rheoli'r pontŵn.**

8. **UNRHYW FATER ARALL**

(a) Nododd y Cadeirydd, fel rhan o ddathliad Canmlwyddiant Llong y Titanic bod Cyngor Tref Abermaw wedi penderfynu gosod plac llechen i goffau Comander Harold Lowe (Pumed Swyddog ar y Titanic) ar y wal o dan Swyddfa'r Harbwr Feistr a diolchwyd i staff y Gwasanaeth Morwrol am gyfrannu a threfnu i'w roi i fyny. Nodwyd y bydd y plac yn cael ei ddadorchuddio ar 15 Ebrill a theimlwyd bod y rhan yma o Abermaw yn fan delfrydol er mwyn i bawb ei weld.

(b) Diolchwyd i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig am drefnu i ddatrys problem a ddeilliodd yn Nhalybont yn ddiweddar.

(c) Nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned ei ddiolchiadau i'r Gwasanaeth Morwrol mewn ymdrin â sialensiau mewn cyfnod heriol iawn. Roedd y staff Morwrol yn dîm brwdfrydig iawn a'u bod wedi eu henwebu ac wedi cyrraedd rhestr fer mewn cystadleuaeth a elwir "Cyngor ar ei Orau" sydd yn cydnabod gwaith caled ac ymdrechion staff yn eu gwaith. Roedd y Tîm wedi eu henwebu am eu gwasanaeth o'r ansawdd gorau i'r cwsmeriaid a hyderir y byddent yn llwyddiannus mewn derbyn gwobr.

Ategodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r Tîm Morwrol gan ychwanegu bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bob amser yn barod i gynorthwyo ar unrhyw adeg a hyd yn oed, pe byddai'r galw, ar benwythnosau.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

9. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Adroddwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ar ddydd Mawrth, 16 Hydref 2012.

**Penderfynwyd Derbyn a nodi'r uchod**

CADEIRYDD